Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol 2022

## Adroddiad am lesiant pobl sy'n cael gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl sy'n cael cymorth

Ebrill 2023



# Cynnwys


**Rhagair** **1**

**Crynodeb Gweithredol** **2**

Sicrhau hawliau a hawlogaethau 2

Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol 2

Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod 3

Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden 3

Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol 3

Y cyfraniad a wneir at gymdeithas 3

Llesiant cymdeithasol ac economaidd 4

Addasrwydd llety preswyl 4

**Cyflwyniad** **5**

Cefndir 6

Egwyddorion y Ddeddf 6

Mesur llesiant cenedlaethol 6

Cysylltiadau â fframweithiau eraill 7

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 7

Ansawdd a ffynonellau data 7

Cydgyfrifoldeb Iechyd a Gofal Cymdeithasol 8

**Sicrhau hawliau a hawlogaethau** **12**

Canran y bobl sy'n ystyried bod y gofal a'r cymorth maent wedi'i gael yn ardderchog neu'n dda 13

Canran y bobl sydd ag ansawdd bywyd gwell, diolch i gyfraniad eu gofal a chymorth 13

Canran y bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch 13

Canran y bobl sy'n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddynt yn ardderchog neu'n dda 14

Canran y bobl a gafodd yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnynt ei angen 14

Canran y bobl sy'n dweud eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallant 14

Canran y bobl a oedd yn teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth 14

Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau plant a gweithgareddau lles i deuluoedd 15

Canran yr oedolion sy'n cael gofal a chymorth sy'n derbyn taliad uniongyrchol 15

**Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol** **16**
- Canran y bobl sydd â sgoriau hapusrwydd uchel 17
- Canran y bobl sydd â sgoriau uchel o ran bodlonrwydd â bywyd 17
- Canran y bobl â llesiant meddwl uchel 18
- Canran yr oedolion (16 oed neu hŷn) sydd â dau neu fwy o ymddygiadau ffordd iach o fyw 18
- Canran y genedigaethau byw, unig-anedig, sydd â phwysau geni o lai na 2500 gram 18
- Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth gyda phroblemau iechyd meddwl 18
- Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth sydd wedi cael y brechiadau diweddaraf 18
- Canran y plant 5 oed a throsodd sy'n cael gofal a chymorth sydd wedi cael yr archwiliadau deintyddol diweddaraf 18
- Disgwyliad oes iach adeg genedigaeth 19
- Nifer y bobl hŷn sy'n torri eu clun 19

**Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod** **20**
- Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel 21
- Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar gofrestr amddiffyn plant awdurdod lleol 21
- Nifer y digwyddiadau o gam-drin domestig 21
- Nifer y troseddau rhyw 21
- Canran yr oedolion sydd mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod sy'n cael eu hatgyfeirio fwy nag unwaith y flwyddyn 22

**Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden** **23**
- Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt 24
- Canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth 24
- Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth 24
- Cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal 24
- Deilliannau dysgwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned 25
- Canran yr oedolion 16-64 oed sydd ag o leiaf un cymhwyster 27
- Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth sy'n cyflawni'r lefel ddysgu ddisgwyliedig, neu uwch, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen 27
- Y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol ar gyfartaledd ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefydliad addysg a gynhelir gan awdurdod addysg lleol 27

**Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol** 28
- Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig yn gyffredinol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol 29
- Canran y bobl sy'n meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd 29
- Canran y bobl sy'n teimlo eu bod nhw'n perthyn i'w hardal leol 29
- Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda 30

**Y cyfraniad a wneir at gymdeithas** 31
- Canran y bobl sy'n dweud bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil 32
- Canran y bobl sy'n gwirfoddoli 32
- Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau cymunedol neu ieuenctid 32
- Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i bobl anabl 32

**Llesiant cymdeithasol ac economaidd** 33
- Cyfradd cyflogaeth oedolion 50 oed a hŷn 34
- Cyfradd cyflogaeth oedolion 16-64 oed ac sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio dan y Ddeddf Cydraddoldeb 35
- Bwlch o ran disgwyliad oes rhwng y rhai lleiaf difreintiedig a'r mwyaf difreintiedig 36
- Canran y bobl ifanc 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) 36
- Canran yr aelwydydd sy'n wynebu amddifadedd materol 36

**Addasrwydd llety preswyl** 37
- Canran y bobl sy'n dweud bod eu llety yn addas i'w hanghenion 38
- Canran yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol 38
- Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig cymorth tai 38
- Canran y tai cymdeithasol yn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 38

**Y camau nesaf** 39

**Atodiad Ansawdd Data** 40
- Manwl gywirdeb 40
- Parhad a chymharedd 40
- Grwpiau poblogaeth 40
- Ailgategoreiddio camdriniaeth 40

**Atodiad Ffynonellau Data** 41

## Tablau a Ffigurau

Ffigur 1: Cyfran y bobl sydd â sgoriau uchel neu uchel iawn o ran bodlonrwydd â bywyd yn 2020-21, yn ôl categori'r gofal a/neu gymorth gwasanaethau cymdeithasol a gafwyd 17

Ffigur 2: Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n, dda iawn yn 2020-21, yn ôl categori gofal a/neu gymorth gwasanaethau cymdeithasol 19

Ffigur 3: Cyfraddau cwblhau ar gyfer deilliannau addysg gyffredinol, addysg, alwedigaethol, prentisiaethau, a dysgu i oedolion 25

Ffigur 4: Cyfraddau cyflawni ar gyfer deilliannau addysg gyffredinol, addysg, alwedigaethol, prentisiaethau, a dysgu oedolion 26

Ffigur 5: Cyfran y bobl sy'n dweud bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil yn 2020-21, yn ôl categori gofal a/neu gymorth gwasanaethau cymdeithasol 31

Ffigur 6: Cyfran yr oedolion 50 oed a hŷn mewn cyflogaeth fesul blwyddyn, o 2019 i 2021 34

Ffigur 7: Cyfran yr oedolion 16-64 oed sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio dan y Ddeddf Cydraddoldeb, rhwng 2019 a 2021 35

Ffigur 8: Canran y bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth, neu hyfforddiant (NEET) rhwng 2010 a 2020 36

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG46744, ISBN digidol 978-1-83504-272-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

Bu'r tair blynedd diwethaf yn gyfnod heb ei debyg, rhwng pandemig COVID-19, y rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw. Mae pobl o Fôn i Fynwy wedi wynebu heriau ac mae'r angen am gymorth mor uchel ag erioed. O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i roi cryn bwyslais ar wella iechyd a llesiant y genedl.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn pwysleisio pwysigrwydd llesiant. Mae'n pwysleisio'r angen i bobl i fod yn bartneriaid cyfartal wrth lunio'u gofal, cael llais a rheolaeth ac yn tanlinellu bod yn rhaid i'w llesiant fod yn ganolog i'r cymorth a gânt. Fodd bynnag, yn 2020-21 (y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn) roedd Cymru yn dal i deimlo effeithiau pandemig COVID-19. Roedd pobl wedi'u hynysu a dim ond hyn a hyn o ofal a chymorth oedd ar gael. Golygai hyn nad oedd pawb yn cael y gofal a'r cymorth a ragwelwyd yn wreiddiol yn y Ddeddf.

Yn 2016, cyhoeddwyd y **Datganiad Llesiant** a oedd yn disgrifio beth mae llesiant yn ei olygu i bobl sydd angen gofal a chymorth a'r gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth. Mae'r Datganiad hwn lawn mor berthnasol nawr ag yr oedd chwe blynedd yn ôl. Mae pawb eisiau cyflawni eu canlyniadau personol eu hunain, y bach a mawr, pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r Datganiad yn helpu sefydliadau i weithio gyda'i gilydd, mewn ffordd well, er mwyn helpu unigolion i gyflawni eu canlyniadau.

Mae ein **Rhaglen Lywodraethu** yn cyflwyno ein blaenoriaethau ar gyfer y Senedd hon. Mae hefyd yn cynnwys y deg amcan llesiant. Rydym yn defnyddio'r rhain i wneud yn siŵr bod ein cyfraniad at gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu yn canolbwyntio ar gyflawni pob un o'r nodau llesiant. Byddwn ni'n gweithio i ddarparu cyfle cyfartal i bawb yng Nghymru i gyrraedd eu nodau a chyflawni eu canlyniadau.

Felly, mae'n hollbwysig ein bod ni'n parhau i fonitro iechyd a llesiant pawb yng Nghymru. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio adroddiad y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r data sydd ar gael sydd gennym am lesiant pobl. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gyfyngu gan yr hyn y gellid ei gasglu yn ystod 2020-21, ond mae'n dal i ddangos gwahaniaethau pwysig rhwng pobl a'r sefyllfa ddymunol o ran llesiant pobl Cymru.

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau cadarnhaol iawn. Er enghraifft, rhai'n ymwneud â phlant sydd â phrofiad o ofal sy'n profi problemau iechyd meddwl, bodloni anghenion tai gofalwyr di-dâl, a diogelu oedolion. Ond nid da lle gellir gwell, er enghraifft, sicrhau hawliau a chyfleoedd addysg i bawb sy'n cael cymorth. Mae angen gwelliannau o safbwynt llesiant corfforol a meddyliol hefyd.

Rhaid cydnabod effeithiau COVID-19 ar gynnwys yr adroddiad hwn: fe wnaeth y pandemig newid ymddygiad pobl a faint o wasanaethau a chymorth a oedd ar gael. Roedd pobl hefyd yn wynebu heriau ehangach. Mae'n anochel bod y rhain wedi effeithio ar lawer o'r mesurau a adroddir yma.

Ar ben hynny, mae'r pandemig wedi effeithio ar lawer o'r ffynonellau data a ddefnyddir i lunio'r mesurau. Cafodd rhai casgliadau eu oedi, eraill eu cyflwyno'n wahanol. O ganlyniad, lle y byddem fel arfer yn darparu cyfresi amser ar gyfer mesurau penodol, nid yw'r rhain ar gael cyn 2021-22 a/neu nid yw data'n gymaradwy i'r data blaenorol a gasglwyd oherwydd newidiadau yn y dull casglu.

Rydym wedi nodi'n glir lle mae hyn yn wir. Bydd llawer o'r mesurau hyn yn ymddangos ar eu ffurfiau newydd yn Fframweithiau Canlyniadau Cenedlaethol y dyfodol, ac felly byddant ar gael fel cyfresi amser maes o law.

## Sicrhau hawliau a hawlogaethau

Ar y cyfan, mae'r darlun o safbwynt sicrhau hawliau a hawlogaethau pobl yng Nghymru yn 2020-21 yn un cadarnhaol. Roedd y rhan fwyaf o bobl a oedd yn cael gofal a chymorth a/neu gymorth fel gofalwyr di-dâl yn dweud ei fod naill ai'n ardderchog neu'n dda. Dywedon nhw fod eu gofal wedi eu helpu i gael ansawdd bywyd gwell.

Parhaodd y darlun cadarnhaol hwn gyda mwyafrif y ddau grŵp yn dweud eu bod yn cael eu trin â pharch. Dywedodd y ddau grŵp fod y bobl sy'n darparu eu help, gofal, a/neu gymorth yn ardderchog neu dda. Roedd y ddau grŵp hefyd yn cytuno eu bod yn cael yr wybodaeth neu'r cyngor cywir fel bo'r angen. Yn ogystal, dywedodd y rhan fwyaf o bobl eu bod yn teimlo'n rhan o benderfyniadau am y gofal a/neu'r cymorth a gawsant.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod lle i wella eto o safbwynt hawliau a hawlogaethau. Mae'n hollbwysig bod gwasanaethau cymdeithasol yn dal i wneud eu gorau glas i sicrhau bod y gofal sy'n cael ei ddarparu yn helpu pobl i fwynhau ansawdd bywyd gwell. Mae'n hanfodol bod pobl sy'n cael gofal a/neu gymorth yn cael eu trin â pharch. Mae angen i bobl gael gafael ar wybodaeth a chael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a/neu gymorth.

## Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol

Roedd sgoriau hapusrwydd a bodlonrwydd â bywyd yn dueddol o fod yn is i'r bobl hynny sy'n cael gofal a/neu gymorth o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Parhaodd y duedd hon yn nhermau iechyd corfforol, gyda bwlch amlwg rhwng cyfran yr oedolion sy'n cael gofal a chymorth a ddywedodd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn yn 2020-21, o gymharu â'r rhai nad ydynt yn cael gofal a chymorth.

Ond roedd y darlun ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth yn fwy cadarnhaol: yn 2020, roedd cyfran y plant sy'n cael gofal a chymorth a oedd â phroblemau iechyd meddwl ar ei hisaf ers tair blynedd, a'r rhan fwyaf o blant sy'n cael gofal a chymorth wedi cael eu brechiadau i gyd ac archwiliadau deintyddol diweddar. Mae hyn yn hynod galonogol yng nghyd-destun pandemig COVID-19 a'r heriau ychwanegol cysylltiedig a brofwyd gan wasanaethau iechyd a deintyddol yn ystod 2020-21.

## Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

Roedd nifer y troseddau rhyw yr adroddwyd amdanynt yn isel yn 2021, yn is na'r tair blynedd flaenorol, a bu gostyngiad bach mewn digwyddiadau o gam-drin domestig rhwng 2020 a 2021. Er hynny, roedd ffigurau digwyddiadau cam-drin domestig yn 2021 yn uwch nag yn 2019.

Bu gostyngiad bach, ond cyson, ers 2016-17 yng nghyfran yr oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod ac sydd wedi'u hatgyfeirio am weithdrefnau diogelu fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn. Hefyd, yn 2018-19 – y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer – roedd y mwyafrif yn teimlo'n ddiogel a dim ond ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng y rhai sy'n cael gofal a chymorth a/neu gymorth fel gofalwyr di-dâl, a'r rhai nad ydynt yn cael cymorth o'r fath, o ran teimlo'n ddiogel.

## Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden

Fe wnaeth COVID-19 amharu ar drefniadau arholiadau yn 2020 a 2021, felly nid ydym hyn cyflwyno data cyrhaeddiad yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn diweddaru adroddiadau'r dyfodol yn unol â gofynion y polisi addysg newydd yn dilyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022 a newidiadau i gasglu data ar gyrhaeddiad addysgol.

Mae gweddill y mesurau addysg, hyfforddiant, a gweithgareddau hamdden yn dangos darlun cymysg.

Bu rhywfaint o ostyngiad mewn cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal rhwng 2017 a 2019 ac roedd eu cyfradd absenoldeb anawdurdodedig ar ei huchaf ers tair blynedd yn 2019. Mae cyfran yr oedolion 16-64 oed sydd ag o leiaf un cymhwyster TGAU neu gyfwerth ag NVQ wedi aros yn gymharol uchel a sefydlog ers 2017.

Mae cyfraddau cwblhau ar gyfer dysgwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, a dysgu oedolion yn y gymuned wedi aros yn gyson uchel ar gyfer deilliannau A2 (Safon Uwch) addysg gyffredinol. Mae deilliannau dysgu oedolion a chyfraddau cyflawni addysg gyffredinol wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf. Mae hyn yn cyferbynnu â'r gostyngiadau diweddar mewn cyfraddau cwblhau prentisiaethau, mymryn o ostyngiad mewn cyfraddau cyflawni ar gyfer deilliannau galwedigaethol, a'r gwaethygiad sylweddol mewn cyfraddau cyflawni ym maes dysgu oedolion a phrentisiaethau.

## Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol

Mae'r darlun ynghylch perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol yn gadarnhaol ar y cyfan yn 2020-21: gyda phobl yn dweud bod ganddynt gysylltiad da â'u hardal leol a'u cymdogion. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod ymdeimlad o unigrwydd yn uwch ymhlith y rhai sy'n cael gofal a chymorth na'r boblogaeth gyffredinol.

## Y cyfraniad a wneir at gymdeithas

Cymysg oedd tueddiadau mewn cyfraniadau a wneir at gymdeithas ar gyfer 2020-21. O ran teimlo eu bod yn gwneud pethau gwerth chweil mewn bywyd, cafwyd canlyniadau tebyg ar gyfer gofalwyr di-dâl yn cael cymorth a rhai nad

ydynt yn ofalwyr. Fodd bynnag, fel gyda phynciau eraill, roedd cyfran y bobl sy'n cael gofal a chymorth a ddywedodd bod y pethau y maent yn eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil yn is, yn nodedig felly, na'r holl grwpiau eraill.

## Llesiant cymdeithasol ac economaidd

Cymysg yw'r canlyniadau ar gyfer llesiant cymdeithasol ac economaidd pobl Cymru hefyd. Tra gwelwyd gostyngiad net dros y degawd diwethaf, mae canran y bobl ifanc 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth, neu hyfforddiant (NEET) wedi aros yn weddol sefydlog yn y pedair blynedd diwethaf. Rhwng 2016-17 a 2018-19 bu gostyngiad yng nghyfran y gofalwyr di-dâl a oedd yn byw mewn amddifadedd materol. Serch hynny, roedd cyfran fwy o bobl sy'n cael gofal a chymorth yn byw mewn amddifadedd materol na'r boblogaeth yn gyffredinol, ac ni wellodd pethau rhwng 2016-17 a 2018-19.

Mae cyfradd cyflogaeth oedolion dros 50 wedi gostwng ychydig rhwng 2019 a 2021. Mae oedolion ag anableddau wedi profi canlyniadau economaidd gwaeth hefyd, gyda gostyngiadau bach ond parhaus mewn cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc 16 i 64 oed ag anableddau o flwyddyn i flwyddyn rhwng 2019 a 2021.

## Addasrwydd llety preswyl

Mae'r patrwm o safbwynt ansawdd tai cymdeithasol yng Nghymru yn parhau'n gadarnhaol, gyda bron pob un yn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2019-20. Dywedodd mwyafrif y gofalwyr di-dâl fod eu llety yn addas ar gyfer eu hanghenion yn 2018-19, sy'n fwy na'r gyfran o bobl nad ydynt yn ofalwyr sy'n dweud yr un fath.

Ond mae lle i wella o hyd: roedd cyfran y bobl sy'n cael gofal a chymorth a ddywedodd fod eu llety yn addas i'w hanghenion yn parhau'n is nag ar gyfer y rhai nad ydynt yn cael gofal a chymorth.



# Cyflwyniad

## Cefndir

Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei huchelgeisiau ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol. Mae G**wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu** yn:

- amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru
- fframwaith ar gyfer ymateb i'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y ddegawd nesaf
- darparu system sy'n canolbwyntio ar lesiant:
  - pobl sy'n cael gofal a/neu gymorth
  - gofalwyr di-dâl sy'n cael cymorth.

Mae deddfwriaeth yn cefnogi Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru. Daeth **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** ('y Ddeddf') i rym ym mis Ebrill 2016.

**Mae'r Ddeddf yn cynnwys un ar ddeg rhan:**

- **Rhan 1** – Cyflwyniad
- **Rhan 2** – Swyddogaethau cyffredinol
- **Rhan 3** – Asesu anghenion unigolion
- **Rhan 4** – Diwallu anghenion
- **Rhan 5** – Codi ffioedd ac asesiadau ariannol
- **Rhan 6** – Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya
- **Rhan 7** – Diogelu
- **Rhan 8** – Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol
- **Rhan 9** – Cydweithrediad a phartneriaeth
- **Rhan 10** – Cwynion, sylwadau a gwasanaethau eirioli
- **Rhan 11** – Amrywiol a chyffredinol.

Mae Rheoliadau, Codau Ymarfer a Chanllawiau Statudol yn ategu'r Ddeddf. Mae gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru ddyletswyddau o dan y Ddeddf. Mae dyletswydd arnynt i hybu llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth.

Mae'r Ddeddf wedi newid y sector gwasanaethau cymdeithasol:

- fel bod gan bobl reolaeth dros y cymorth sydd ei angen arnynt;
- fel bod pobl yn gallu gwneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth fel partner cyfartal;
- fel bod asesiad cymesur yn canolbwyntio ar yr unigolyn;
- fel bod gan ofalwyr di-dâl hawl gyfartal i gael asesiad ar gyfer cymorth i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt;
- fel bod gan bawb fynediad rhwydd at gyngor a gwybodaeth;
- fel bod pwerau i ddiogelu pobl yn gryfach;
- fel bod pwyslais ar ddull ataliol o ddiwallu anghenion gofal a chymorth;
- fel bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn dod at ei gilydd mewn partneriaethau statudol newydd. Mae'r rhain yn sbarduno integreiddio, arloesi a newid gwasanaethau.

## Egwyddorion y Ddeddf

- Mae'r Ddeddf yn cynorthwyo pobl ag anghenion gofal a chymorth i gyflawni eu llesiant.
- Mae pobl yn ganolog i'r system newydd trwy roi llais cyfartal iddynt am y cymorth y maent yn ei gael.
- Mae partneriaeth a chydweithrediad yn sail i ddarparu gwasanaethau.
- Bydd gwasanaethau'n hybu atal; bydd hyn yn atal angen rhag gwaethygu. Bydd gwasanaethau'n sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir.

Mae'r Ddeddf yn trawsnewid gofal cymdeithasol yng Nghymru a'i nod yw gwella llesiant pobl. Bydd gwasanaethau gofal a chymorth ledled Cymru'n canolbwyntio ar:

- y canlyniadau llesiant y mae pobl sydd angen gofal a chymorth yn dymuno eu cyflawni;
- y canlyniadau llesiant y mae gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth eisiau eu cyflawni;
- hawliau a chyfrifoldebau pobl.

## Mesur llesiant cenedlaethol

Mae'r **Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol**:

- yn disgrifio llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth;
- yn bodloni gofynion Rhan 2 o Adran 8 o'r Ddeddf;
- yn adeiladu ar y canlyniadau llesiant cenedlaethol o'r **datganiad llesiant**;
- yn cynnwys dangosyddion canlyniadau cenedlaethol sy'n ymwneud ag wyth agwedd ar lesiant.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- sicrhau hawliau a hawlogaethau;
- iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol;
- amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden;
- perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol;
- y cyfraniad a wneir at gymdeithas;
- llesiant cymdeithasol ac economaidd;
- addasrwydd llety preswyl.

Mae'r **dangosyddion canlyniadau cenedlaethol** yn dangos a yw'r canlyniadau llesiant cenedlaethol yn cael eu cyflawni. Maent yn rhoi mesur o lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth.

Llywodraeth Cymru sydd wedi pennu'r **dangosyddion canlyniadau cenedlaethol**. Cydweithiodd y llywodraeth ag ystod eang o randdeiliaid o bob cwr o Gymru.

Prif amcanion y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yw:

- **Hybu llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth yng Nghymru.**
  Bydd newid pwyslais y ddarpariaeth, i hybu llesiant, yn rhoi ffocws i'r holl wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Bydd gwasanaethau yn cydweithio i hybu llesiant mewn perthynas â gofal a chymorth. Bydd gwasanaethau'n gweithio gyda phobl sy'n cael gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl er mwyn:
  - o deall yr hyn sy'n bwysig iddynt;
  - bydd hyn yn helpu pobl i gynnal lefel briodol o annibyniaeth. Efallai y bydd angen lefelau priodol o ofal a chymorth ar bobl i aros yn annibynnol.
- **Dangos a yw gwasanaethau yn gwella canlyniadau llesiant i bobl sydd angen gofal a/neu gymorth. Bydd yn gwneud hyn gan ddefnyddio dangosyddion cyson y gellir eu cymharu.**
  Bydd hyn yn caniatáu i'r sector farnu ei berfformiad. Bydd yn tynnu sylw at gamau sydd eu hangen i wella llesiant pobl. Bydd yn gwneud hyn yn hytrach na chanolbwyntio

ar brosesau'r gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn nodi blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella. Bydd hefyd yn nodi arferion gorau a'r adnoddau a'r polisïau sydd eu hangen.

- **Disgrifio'r canlyniadau llesiant cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a/neu gymorth. Dyma'r canlyniadau y dylai pobl ddisgwyl eu cyflawni er mwyn byw bywydau bodlon.**
  Bydd hyn yn rhoi mwy o lais a mwy o reolaeth i bobl dros eu bywydau. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl yn cyfrannu at wella eu llesiant eu hunain. Bydd canolbwyntio ar ganlyniadau llesiant pobl yn arwain at brofiadau a gwasanaethau gwell.
- **Mesur a yw Cymru'n cyrraedd y nodau sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.
  Mae saith nod llesiant wedi'u gosod yn y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru fwy cyfartal a Chymru iachach. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Nod y Ddeddf yw gwneud hyn nawr ac yn y dyfodol.

Mae tudalennau'r **Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol** ar wefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am:

- y dangosyddion canlyniadau cenedlaethol;
- y ffynonellau data sy'n ymwneud â'r dangosyddion.

## Cysylltiadau â fframweithiau eraill

Mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol hwn hefyd yn cysylltu'n agos â fframweithiau canlyniadau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys rhai ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a **Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus**. Mae gorgyffwrdd uniongyrchol â rhai dangosyddion sy'n cael eu rhannu ar draws y fframweithiau hyn. Mae rhai dangosyddion sy'n ategu rhai eraill. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gysoni'r fframweithiau hyn ymhellach fel yr amlinellir yng nghynllun **Cymru Iachach**.

Un arall yw'r **fframwaith perfformiad a gwella** ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Daeth hwn i rym ym mis Ebrill 2020. Mae'n edrych ar dystiolaeth ar ddarparu gofal a chymorth, a'r cymorth i ofalwyr di-dâl ar hyd a lled Cymru. Mae'n defnyddio tystiolaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol o Fôn i Fynwy.

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys data o 2019-20 lle bo modd yn ogystal â'r data diweddaraf ar gyfer 2020-21. Ni chafodd adroddiad y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ei gyhoeddi yn 2020 oherwydd y pandemig COVID-19. Fe wnaethom ni gyhoeddi adroddiad ddiwethaf yn 2021. Roedd adroddiad 2021 yn cynnwys data ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19.

Dyma'r pedwerydd adroddiad Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Byddwn yn rhoi diweddariad ar gyfer pob dangosydd lle'r oedd data newydd ar gael. Byddwn yn adrodd ar dueddiadau lle bo modd. Bydd yr holl adroddiadau dilynol ar y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol. Bydd y dystiolaeth ohonynt yn cyfrannu at sail dystiolaeth mwy o faint i Gymru. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth hon i nodi'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella. Bydd hyn yn cynnig dealltwriaeth o effaith gofal a chymorth ar fywydau pobl.

## Ansawdd a ffynonellau data

Mae'r manylion am y ffynonellau data a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad hwn, a'u hansawdd, ar gael yn yr atodiadau ar ddiwedd y ddogfen hon.

Noder nad oes modd cymharu data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2020-21 â'r blynyddoedd blaenorol oherwydd newid yn y dull arolygu a ddefnyddiwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru oherwydd COVID-19.

Hefyd, nodwch fod pedwar categori o bobl yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn:

1. **Pobl a ddywedodd eu bod yn cael gofal a chymorth gyda'u hanghenion gofal eu hunain.**
2. **Pobl nad ydynt yn cael gofal a chymorth ar gyfer unrhyw anghenion gofal.**
3. **Pobl sy'n cael cymorth yn eu rôl fel gofalwr di-dâl.**
4. **Pobl nad ydynt yn ofalwyr di-dâl.**

Nid yw'r categorïau hyn yn gwbl ar wahân i'w gilydd. Efallai fod rhai unigolion sy'n cael gofal a chymorth sydd â chyfrifoldebau gofalu eu hunain hefyd, a gall unigolion nad ydynt yn cael gofal a chymorth fod yn ofalwyr di-dâl sy'n cael cymorth neu beidio.

Arolwg o oedolion mewn aelwydydd preifat yw Arolwg Cenedlaethol Cymru. Felly, nid yw plant o dan 16 oed wedi'u cynnwys. Hefyd, nid yw oedolion sy'n drigolion hirdymor mewn cartrefi gofal wedi'u cynnwys. Mae hyn yn golygu nad yw cyfran sylweddol o bobl sy'n cael gofal a chymorth wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

## Cydgyfrifoldeb Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn rhannu'r cyfrifoldeb am eitemau penodol yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr eitemau data hyn, sydd wedi'u rhestru isod, gweler y Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

13. **Canran yr oedolion (16 oed neu hŷn) sydd â dau neu fwy o ymddygiadau ffordd iach o fyw (ddim yn ysmygu, bod â phwysau iach, bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau a dilyn y canllawiau gweithgarwch corfforol).**
14. **Canran y genedigaethau byw, unig-anedig, sydd â phwysau geni o lai na 2500 gram.**
18. **Disgwyliad oes iach adeg genedigaeth.**
19. **Nifer y bobl hŷn sy'n torri eu clun.**
44. **Bwlch o ran disgwyliad oes rhwng y rhai lleiaf difreintiedig a'r mwyaf difreintiedig.**

Yn ogystal, gall y Fframwaith Iechyd a Chanlyniadau Cymdeithasol gynnwys mesurau ychwanegol sy'n gysylltiedig â mesurau tebyg sydd yn yr adroddiad hwn.

## Dangosyddion sydd wedi'u diweddaru

### Sicrhau hawliau a hawlogaethau

Dangosydd wedi'i ddiweddaru – **do/naddo**

1. Canran y bobl sy'n ystyried bod y gofal a'r cymorth maent wedi'i gael yn ardderchog neu'n dda – **Do**
2. Canran y bobl sydd ag ansawdd bywyd gwell, diolch i gyfraniad eu gofal a chymorth – **Do**
3. Canran y bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch – **Do**
4. Canran y bobl sy'n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddynt yn ardderchog neu'n dda – **Do**
5. Canran y bobl a gafodd yr wybodaeth neu'r cyngor cywir fel bo'r angen – **Do**
6. Canran y bobl sy'n dweud eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallant – **Do**
7. Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth – **Do**
8. Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau plant a gweithgareddau lles i deuluoedd – **Do**
9. Canran yr oedolion sy'n cael gofal a chymorth sy'n derbyn taliad uniongyrchol – **Do**

### Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol

Dangosydd wedi'i ddiweddaru – **do/naddo**

10. Canran y bobl sydd â sgoriau hapusrwydd uchel – **Do**
11. Canran y bobl sydd â sgoriau uchel o ran bodlonrwydd â bywyd – **Do**
12. Canran y bobl sydd â llesiant meddwl uchel – **Do**
13. Canran yr oedolion (16 oed neu hŷn) sydd â dau neu fwy o ymddygiad ffordd iach o fyw – **Gweler adran cydgyfrifoldeb Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
14. Canran y genedigaethau byw, unig-anedig, sydd â phwysau geni o lai na 2500 gram – **gweler adran cydgyfrifoldeb Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
15. Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth â phroblemau iechyd meddwl – **Do**
16. Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth sydd wedi cael y brechiadau diweddaraf – **Do**
17. Canran y plant pump oed a hŷn sy'n cael gofal a chymorth sydd wedi cael yr archwiliadau deintyddol diweddaraf – **Do**
18. Disgwyliad oes iach adeg genedigaeth – **Gweler adran cydgyfrifoldeb Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
19. Nifer y bobl hŷn sy'n torri eu clun – **Gweler adran cydgyfrifoldeb Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
20. Canran y bobl sy'n dweud bod eu hiechyd yn gyffredinol yn dda neu'n dda iawn – **Do**

## Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

Dangosydd wedi'i ddiweddaru – **do/naddo**

**21.** Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel – **Do**

**22.** Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar gofrestr amddiffyn plant awdurdod lleol – **Do**

**23.** Nifer y digwyddiadau o gam-drin domestig – **Do**

**24.** Nifer y troseddau rhyw – **Do**

**25.** Canran yr oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod sydd wedi cael eu hatgyfeirio fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn – **Do**

## Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden

Dangosydd wedi'i ddiweddaru – **do/naddo**

**26.** Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt – **Do**

**27.** Canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth – **Naddo**

**28.** Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 i blant sy'n cael gofal a chymorth – **Naddo**

**29.** Cyfraddau presenoldeb ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal – **Do**

**30.** Deilliannau dysgwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned – **Do**

**31.** Canran yr oedolion 16-64 oed sydd ag o leiaf un cymhwyster – **Do**

**32.** Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth sydd wedi cyflawni'r lefel ddysgu ddisgwyliedig, neu uwch, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen – **Naddo**

**33.** Y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol ar gyfartaledd ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefydliad addysg a gynhelir gan awdurdod addysg lleol – **Naddo**

## Domestig, teulu a phersonol

Dangosydd wedi'i ddiweddaru – **do/naddo**

**34.** Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig yn gyffredinol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol – **Do**

**35.** Canran y bobl sy'n credu bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd – **Do**

**36.** Canran y bobl sy'n teimlo eu bod nhw'n perthyn i'w hardal leol – **Do**

**37.** Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda – **Do**

## Y cyfraniad a wneir at gymdeithas

Dangosydd wedi'i ddiweddaru – **do/naddo**

**38.** Canran y bobl sy'n dweud bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil – **Do**

**39.** Canran y bobl sy'n gwirfoddoli – **Naddo**

**40.** Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i'r gymuned neu i bobl ifanc – **Do**

**41.** Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i bobl anabl – **Do**

## Llesiant cymdeithasol ac economaidd

Dangosydd wedi'i ddiweddaru – **do/naddo**

**42.** Cyfradd cyflogaeth oedolion 50 oed a hŷn – **Do**

**43.** Cyfradd cyflogaeth oedolion 16-64 oed ac sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio dan y Ddeddf Cydraddoldeb – **Do**

**44.** Bwlch o ran disgwyliad oes iach rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig – **Gweler adran cydgyfrifoldeb Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**45.** Canran y bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) – **Do**

**46.** Canran yr aelwydydd sydd mewn amddifadedd materol – **Naddo**

## Addasrwydd llety preswyl

Dangosydd wedi'i ddiweddaru – **do/naddo**

**47.** Canran y bobl sy'n dweud bod eu llety yn addas i'w hanghenion – **Do**

**48.** Canran y teuluoedd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol – **Do**

**49.** Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau tai – **Do**

**50.** Canran y tai cymdeithasol sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru – **Do**



# Sicrhau hawliau a hawlogaethau

Mae gan bawb hawl i gael llais a chyfle i gael ei glywed. Dylai pobl gael rheolaeth go iawn dros eu bywydau beunyddiol. Mae hawliau pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth, yn ganolog i Ddeddf 2014. Mae'r datganiad llesiant hwn yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwnnw.

Mae'r prif ganlyniadau llesiant yn cynnwys helpu pobl i fod â rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Mae hefyd yn golygu helpu pobl i wneud penderfyniadau am eu gofal a/neu gymorth.



**80%** o **bobl** a



**73%** o **ofalwyr**

sy'n cael cymorth yn cytuno ei fod wedi eu helpu i gael ansawdd bywyd gwell yn 2020-21. *(Dangosydd 2)*.

---



**72%**

o'r bobl a oedd yn **cael gofal a chymorth** neu gymorth fel gofalwyr, neu'r ddau, yn cytuno eu bod nhw'n rheoli eu bywyd bob dydd gymaint ag y gallent.



**80%**

o'r bobl **nad oeddent yn cael gofal a chymorth** yn teimlo bod ganddynt reolaeth dros eu bywyd bob dydd. *(Dangosydd 6)*.

---



**80%**

o bobl a gofalwyr a oedd yn cael cymorth yn teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal a chymorth yn 2020-21. *(Dangosydd 7)*

## Dangosyddion canlyniad

1. **Canran y bobl sy'n ystyried bod y gofal a'r cymorth maent wedi'i gael yn ardderchog neu'n dda.**
2. **Canran y bobl sydd ag ansawdd bywyd gwell, diolch i gyfraniad eu gofal a chymorth.**
3. **Canran y bobl sy'n teimlo eu bod wedi eu trin â pharch.**
4. **Canran y bobl sy'n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddynt yn ardderchog neu'n dda.**
5. **Canran y bobl a gafodd yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnynt ei angen.**
6. **Canran y bobl sy'n dweud eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallant.**
7. **Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau sy'n ymwneud â'u gofal a'u cymorth.**
8. **Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau plant a gweithgareddau lles i deuluoedd.**
9. **Canran y defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n derbyn taliad uniongyrchol.**

## Canran y bobl sy'n ystyried bod y gofal a'r cymorth maent wedi'i gael yn ardderchog neu'n dda

Rhaid i bobl a gofalwyr di-dâl dderbyn gwasanaethau gofal a chymorth o'r radd flaenaf er mwyn gallu:

- gwella eu llesiant;
- byw'n annibynnol;
- cyflawni eu canlyniadau llesiant personol.

Yn 2020-21, roedd 80% o'r bobl a oedd yn cael gofal a chymorth yn ystyried ei fod naill ai'n ardderchog neu'n dda. Yn yr un modd, roedd 80% o ofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth yn ystyried bod eu cymorth yn ardderchog neu'n dda.

Yn 2018-19, roedd 77% o'r bobl a oedd yn cael gofal a chymorth yn dweud ei fod naill ai'n ardderchog neu'n dda a 66% o'r gofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth o'r farn eu bod wedi cael cymorth ardderchog neu dda.

## Canran y bobl sydd ag ansawdd bywyd gwell, diolch i gyfraniad eu gofal a chymorth

Gofynnwyd i bobl a oedd yn cael gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth a yw gwasanaethau gofal a chymorth wedi eu helpu i fwynhau ansawdd bywyd gwell.

Yn 2020-21, roedd 80% o'r bobl a oedd yn cael gofal a chymorth a 73% o ofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth yn cytuno ei fod wedi eu helpu i gael ansawdd bywyd gwell.

Yn 2018-19, roedd 79% o'r bobl a oedd yn cael gofal a chymorth a 67% o ofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth yn cytuno ei fod wedi eu helpu i gael ansawdd bywyd gwell.

## Canran y bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch

Mae llesiant pobl a'u canlyniadau llesiant personol yn gwella:

- pan maen nhw'n cael eu trin â pharch ac urddas;
- pan maen nhw'n cael y gofal/a neu'r cymorth priodol;
- pan maen nhw'n rhydd rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- maen nhw'n cael cymorth i fyw'n annibynnol.

O'r rhai sy'n cael gofal a chymorth yn 2020-21, roedd 92% yn teimlo bod pobl yn eu trin â pharch.

Roedd 86% o’r gofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth yn teimlo bod pobl yn eu trin â pharch.

Cyn hynny, roedd 77% o’r bobl a oedd yn cael gofal a chymorth a/neu’n cael cymorth fel gofalwyr di-dâl yn 2018-19 yn teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch, yn debyg iawn i’r rhai nad oeddent yn cael gofal a chymorth neu gymorth fel gofalwyr (78%).

## Canran y bobl sy’n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddynt yn ardderchog neu’n dda

Gofynnwyd i bobl a gafodd ofal a chymorth a gofalwyr di-dâl a gafodd gymorth i roi sgôr i’r bobl a oedd yn eu helpu, yn gofalu amdanynt neu’n eu cynorthwyo’n uniongyrchol.

Yn 2020-21, roedd 86% o’r bobl a oedd yn cael gofal a chymorth ac 85% o ofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth yn ystyried bod y bobl a oedd yn eu helpu, yn gofalu amdanynt neu’n eu cynorthwyo’n uniongyrchol yn ardderchog neu’n dda.

Yn 2018-19, roedd 89% o’r bobl a oedd yn cael gofal a chymorth a 78% o ofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth yn ystyried bod y bobl a oedd yn eu helpu, yn gofalu amdanynt neu’n eu cynorthwyo’n uniongyrchol yn ardderchog neu’n dda.

## Canran y bobl a gafodd yr wybodaeth neu’r cyngor cywir pan oedd arnynt ei angen

Mae pobl angen gwybodaeth amserol a hygyrch i wneud penderfyniadau gwybodus am eu llesiant. Dylai gwybodaeth a chyngor fod ar gael ar yr adeg iawn a’r llefydd iawn. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth hygyrch am ofal a chymorth. Gofynnwyd i bobl a oedd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl a oedd wedi cael cymorth a oeddent yn cytuno ynteu’n anghytuno â’r gosodiad ‘wrth gael gofal a chymorth yn y 12 mis diwethaf, roeddent wedi cael yr wybodaeth neu’r cyngor cywir fel bo’r angen’.

Roedd y mwyafrif o grwpiau a gafodd gymorth yn 2020-21 yn cytuno: 82% o’r rhai gafodd ofal a chymorth ac 80% o’r gofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth.

Yn 2018-19, roedd mwy o ddefnyddwyr gofal a chymorth yn cytuno eu bod wedi derbyn y wybodaeth neu’r cyngor cywir pan oedd ei angen arnynt (79%) na gofalwyr di-dâl sy’n cael cymorth (68%).

## Canran y bobl sy’n dweud eu bod nhw’n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallant

Nid oedd data ar gael ar gyfer 2020-21. Gall Arolygon Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol ddarparu ffigurau wedi’u diweddaru. Mae’r data ar gyfer blynyddoedd blaenorol i’w gweld yn **adroddiad Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol 2021**.

## Canran y bobl a oedd yn teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal a’u cymorth

Mae’n rhaid i bobl sy’n cael gofal a chymorth fod yn bartneriaid cyfartal yn eu gofal. Mae hyn yn cynnwys dylunio a darparu eu gofal a’u cymorth. Yr unigolion eu hunain sy’n gwybod beth sydd orau iddynt. Mae Deddf 2014 yn rhoi’r un hawliau cyfreithiol i ofalwyr di-dâl yng Nghymru ag i’r rhai y maent yn gofalu amdanynt.

Yn 2020-21, roedd 80% o’r bobl a oedd yn cael gofal a chymorth ac 80% o’r gofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth yn teimlo eu bod nhw’n rhan o benderfyniadau am eu gofal a chymorth.

Yn 2018-19, roedd 80% o’r bobl a oedd yn cael gofal a chymorth a 78% o’r gofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth yn teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal neu gymorth.

## Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau plant a gweithgareddau lles i deuluoedd

Mae'r trydydd sector yn ategu gwasanaethau statudol. Maent yn darparu gwasanaethau er budd pobl a chymunedau yng Nghymru.

Mae sefydliadau gwirfoddol yn cynnig gweithgareddau i gefnogi lles teuluoedd a phlant. Gallai'r rhain gynnwys:

- darpariaeth cyn ysgol;
- canolfannau lleol sy'n darparu gwasanaethau;
- gwasanaethau mabwysiadu a maethu;
- sefydliadau hawliau plant;
- gwasanaethau i blant anabl.

Ym mis Gorffennaf 2022, roedd 9.56% o sefydliadau gwirfoddol yn ymwneud â gweithgareddau plant a theuluoedd.

Daw'r data hwn o giplun ym mis Gorffennaf 2022 ac efallai na fydd yn adlewyrchu'r data a gedwir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar adeg arall.

## Canran yr oedolion sy'n cael gofal a chymorth sy'n derbyn taliad uniongyrchol

Mae taliadau uniongyrchol yn caniatáu i bobl brynu'r gofal a/neu'r cymorth sydd ei angen arnynt. Awdurdodau lleol sy'n darparu'r arian i oedolion sydd angen gofal a/neu gymorth. Dyma  un ffordd y gall unigolion reoli'r ffordd y mae eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu.

Yn 2020-21, defnyddiwyd taliad uniongyrchol i ddiwallu anghenion 11.4% o oedolion â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth. DS – nid oedd Ceredigion yn gallu darparu data ar gyfer 2020-21.

Mae'r data ffynhonnell ar gyfer yr eitem hon wedi newid o ganlyniad i gyflwyno'r metrigau Fframwaith Gwelliannau Perfformiad sy'n disodli mesurau perfformiad blaenorol.



# Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol

Mae angen iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol da arnom i fwynhau ansawdd bywyd da. Mae hyn yn wir am bobl sydd angen gofal a chymorth, ac i ofalwyr di-dâl sydd angen cymorth. Mae'r datganiad llesiant hwn yn cydnabod hyn. Mae bod yn iach ac yn egnïol yn gallu caniatáu i blant ddatblygu i'w llawn botensial. Mae'n lleihau'r tebygolrwydd y byddant angen cymorth gan wasanaethau gofal a chymorth yn ddiweddarach yn eu bywydau. I oedolion, mae mwynhau iechyd a llesiant corfforol ac emosiynol da yn gallu eu helpu i gadw eu hannibyniaeth. Drwy gymryd rhan yn eu cymunedau, maent yn llai tebygol o gael eu hynysu.

Mae sawl ffactor yn cyfrannu at iechyd meddwl a llesiant emosiynol. Er mwyn gwella llesiant unigolion, rhaid i wasanaethau weithio mewn modd cyfannol. Mae angen i wasanaethau weithio gyda'r unigolyn ac edrych ar ei fywyd yn ei gyfanrwydd. Drwy gydweithio, gallant helpu'r unigolyn i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo/iddi.

## Dangosyddion Canlyniadau

10. **Canran y bobl sydd â sgoriau hapusrwydd uchel.**
11. **Canran y bobl sydd â sgoriau bodlonrwydd bywyd uchel.**
12. **Canran y bobl â llesiant meddyliol uchel.**
13. **Canran yr oedolion (16 oed neu hŷn) sydd â dau neu fwy o ymddygiadau ffordd iach o fyw.**
14. **Canran y genedigaethau byw, unig-anedig, sydd â phwysau geni o lai na 2500 gram.**
15. **Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth gyda phroblemau iechyd meddwl.**
16. **Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth sydd wedi cael y brechiadau diweddaraf.**
17. **Canran y plant 5 oed a throsodd sy'n cael gofal a chymorth sydd wedi cael yr archwiliadau deintyddol diweddaraf.**
18. **Disgwyliad oes iach adeg geni (gwrywod a benywod).**
19. **Nifer y bobl hŷn sy'n torri eu clun.**
20. **Mae canran yr oedolion sy'n adrodd eu hiechyd yn gyffredinol yn dda iawn neu'n dda.**


## Canran y bobl sydd â sgoriau hapusrwydd uchel

Pan holwyd pobl yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2020-21, dywedodd dros hanner (56%) y rhai a gafodd ofal a chymorth fod ganddynt lefelau uchel neu uchel iawn o hapusrwydd, a dywedodd bron i dri chwarter (72%) o ofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth fod ganddynt lefelau uchel neu uchel iawn o hapusrwydd. Mae hyn yn cymharu â 75% o'r rhai nad ydynt yn ofalwyr a 76% o'r bobl nad ydynt yn cael gofal a chymorth sy'n nodi lefelau uchel neu uchel iawn o hapusrwydd.

Yn 2018-19, dywedodd bron i ddwy ran o dair (62%) o'r bobl a gafodd ofal a chymorth a thri chwarter (75%) y gofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth, fod ganddynt lefelau uchel neu uchel iawn o hapusrwydd. Mae hyn yn cymharu â 78% o bobl nad oeddent yn cael gofal a chymorth a 77% o'r rhai nad oeddent yn ofalwyr.

## Canran y bobl sydd â sgoriau uchel o ran bodlonrwydd â bywyd

**Ffigur 1: Cyfran y bobl sydd â sgoriau uchel neu uchel iawn o ran bodlonrwydd â bywyd yn 2020-21, yn ôl categori'r gofal a/neu gymorth gwasanaethau cymdeithasol a gafwyd**




Roedd ychydig dros hanner (52%) y bobl a gafodd ofal a chymorth yn 2020-21 yn dweud bod ganddynt lefelau uchel neu uchel iawn o fodlonrwydd â bywyd, mae hyn yn cymharu ag ychydig dros dri chwarter (77%) y bobl heb ofal a chymorth (a allai gynnwys gofalwyr sy'n cael cymorth). Roedd gan tua thri chwarter (73%) y gofalwyr di-dâl a gafodd gymorth lefelau uchel neu uchel iawn o fodlonrwydd â bywyd, ychydig yn is na chyfran y rhai nad ydynt yn ofalwyr (77%).

Roedd bwlch rhwng sgoriau bodlonrwydd â bywyd pobl a oedd yn cael gofal a chymorth a bodlonrwydd gofalwyr di-dâl yn 2018-19: roedd gan 62% o'r bobl a oedd yn cael gofal a chymorth lefelau uchel neu uchel iawn o fodlonrwydd o gymharu â 77% o ofalwyr a oedd yn cael cymorth. Dywedodd mwyafrif helaeth o'r rhai nad oeddent yn ofalwyr a phobl nad oeddent yn cael gofal a chymorth fod ganddynt lefelau uchel neu uchel iawn o fodlonrwydd â bywyd: 83% a 84% yn y drefn honno.

## Canran y bobl â llesiant meddwl uchel

Nid oedd data ar gael ar gyfer 2020-21 na 2016-17; bydd diweddariadau o Arolygon Cenedlaethol Cymru y dyfodol yn cael eu cynnwys, os ydynt ar gael, yn adroddiadau Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y dyfodol. Mae'r data ar gyfer blynyddoedd blaenorol i'w gweld yn **adroddiad Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol 2021**.

## Canran yr oedolion (16 oed neu hŷn) sydd â dau neu fwy o ymddygiadau ffordd iach o fyw

Gweler y Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y manylion diweddaraf.

## Canran y genedigaethau byw, unig-anedig, sydd â phwysau geni o lai na 2500 gram

Gweler y Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y manylion diweddaraf.

## Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth gyda phroblemau iechyd meddwl

Mae'r cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth yn cofnodi nifer y plant dros 10 oed sy'n cael anawsterau datblygu emosiynol neu ymddygiadol.

Mae'r data diweddaraf yn cwmpasu 2018 i 2020. Yn y cyfnod hwnnw, roedd canran y plant a oedd yn cael gofal a chymorth a oedd â phroblemau iechyd meddwl ar ei huchaf yn 2019 ac ar ei hisaf yn 2020. O'r 8460 o blant a oedd yn cael gofal a chymorth yn 2020, roedd gan 14.0% broblemau iechyd meddwl – sy'n is na'r uchafbwynt yn 2019 (16.5% o 8215) ac yn is nag yn 2018 (14.2%, o 7950).

Noder nad oedd gwybodaeth iechyd meddwl ar gael yn achos ychydig o blant a oedd yn cael gofal a chymorth.

Mae'r cyfrifoldeb am yr eitem ddata hon yn cael ei rannu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. O 2023 bydd yr eitem hon yn newid yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol i gofnodi canran y plant sy'n cael gofal a chanddynt broblemau iechyd meddwl.

## Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth sydd wedi cael y brechiadau diweddaraf

Yn 2020, roedd 88.8% o'r holl blant a oedd yn cael gofal a chymorth wedi cael y brechiadau diweddaraf; darparwyd gwybodaeth am imiwneiddio ar gyfer 16,050 o 16,580 (96.8%) o blant 5 oed a hŷn. Mae hyn yn uwch na'r ddwy flynedd flaenorol – roedd 82.6% o blant oedd yn cael gofal a chymorth wedi cael y brechiadau diweddaraf yn 2019, ac 82.3% yn 2018. Roedd statws imiwneiddio ar gael ar gyfer 99.4% o blant a oedd yn cael gofal a chymorth yn 2019 ac ar gyfer bron i 100% o blant a oedd yn cael gofal a chymorth yn 2018.

## Canran y plant 5 oed a throsodd sy'n cael gofal a chymorth sydd wedi cael yr archwiliadau deintyddol diweddaraf

Yn 2020, roedd 77.9% o'r holl blant 5 oed a throsodd a oedd yn cael gofal a chymorth wedi cael yr archwiliadau deintyddol diweddaraf; roedd statws archwiliad deintyddol ar gael ar gyfer 93.9% o blant 5 oed a hŷn a oedd yn cael gofal a chymorth. Mae hyn yn is na 2019 ond mae'n uwch na 2018: yn 2019 roedd 85.8% o blant a oedd yn cael gofal a chymorth wedi cael yr archwiliadau deintyddol diweddaraf a 74.8% yn 2018. Roedd statws archwiliad deintyddol ar gael ar gyfer 98.3% o blant oedd yn cael gofal a chymorth yn 2019 a 98.9% o blant a oedd yn cael gofal a chymorth yn 2018.

## Disgwyliad oes iach adeg genedigaeth


Gweler y Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y manylion diweddaraf.

## Nifer y bobl hŷn sy’n torri eu clun

Gweler y Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y manylion diweddaraf.

## Canran yr oedolion sy’n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn neu’n dda

**Ffigur 2: Canran yr oedolion sy’n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu’n dda iawn yn 2020-21, yn ôl categori gofal a/neu gymorth gwasanaethau cymdeithasol**




Dim ond 36% o’r bobl a gafodd gofal a chymorth yn 2020-21 a ddywedodd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu’n dda iawn, o gymharu ag ychydig dros dri chwarter (76%) y bobl nad oeddent yn cael gofal a chymorth. Roedd canran y gofalwyr di-dâl sy’n cael cymorth a ddywedodd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu’n dda iawn yn debyg i bobl nad ydynt yn ofalwyr (74% a 75% yn y drefn honno).

Roedd 2018-19 yn dangos gwelliant bach yng nghyfran y gofalwyr di-dâl sy’n cael cymorth a ddywedodd fod eu hiechyd yn dda neu’n dda iawn: cynyddodd i 71% o 69% yn 2016-17. Rhwng 2016-17 a 2018-19 bu gostyngiad yng nghyfran y bobl a oedd yn cael gofal a chymorth a ddywedodd fod eu hiechyd yn dda neu’n dda iawn: o 38% yn 2016-17 i 31% yn 2018-19.

Dywedodd 74% o’r bobl nad oeddent yn cael gofal a chymorth, na chymorth fel gofalwyr, fod eu hiechyd yn dda neu’n dda iawn yn 2016-17. Yn 2018-19, dywedodd 74% o’r bobl nad oeddent yn cael gofal a chymorth fod eu hiechyd yn dda neu’n dda iawn, a 72% o’r rheini nad ydynt yn ofalwyr.

# Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod bod teimlo'n ddiogel yn ganlyniad llesiant pwysig. Mae gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel a chael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cryfhau'r trefniadau diogelu presennol ar gyfer plant. Mae wedi cyflwyno dyletswydd i asiantaethau (e.e. GIG) roi gwybod am sefyllfaoedd lle mae oedolion mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Mae helpu unigolion i amddiffyn y rhai sy'n bwysig iddynt hefyd yn ganlyniad llesiant pwysig. Er enghraifft, drwy addysgu pobl i adnabod arwyddion a risgiau cam-drin ac esgeulustod.

Gall teimlo'n ddiogel mewn mannau cyhoeddus gynyddu'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn mynd allan. Byddai hyn yn golygu eu bod yn mwynhau eu cymuned leol ac yn teimlo ymdeimlad o berthyn. Mae hyn yn ei dro yn lleihau ynysigrwydd cymdeithasol.



**7.4%**

o blant a roddwyd ar gofrestrau amddiffyn plant awdurdodau lleol yn ystod **2020-21** wedi cael eu cofrestru o'r blaen yn y 12 mis diwethaf. *(Dangosydd 22)*.

**↑ 3.2%**

pwynt canran mewn digwyddiadau o gam-drin domestig rhwng **2019** a **2020**

a

**↓ 1.5%**

gostyngiad pwynt canran rhwng **2020** a **2021**. *(Dangosydd 23)*.

Yn 2021,

**7,419** o droseddau rhyw wedi'u cofnodi yng Nghymru yn 2021. *(Dangosydd 24)*.

Yn 2020-21, **15,301** o oedolion mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso yn ystod y flwyddyn;

**34.6%** o oedolion a oedd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod eu cyfeirio fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn. *(Dangosydd 25)*.



## Dangosyddion Canlyniadau

**21. Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel.**

**22. Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar gofrestr amddiffyn plant awdurdodau lleol.**

**23. Nifer y digwyddiadau o gam-drin domestig.**

**24. Nifer y troseddau rhyw.**

**25. Canran yr oedolion sydd mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod sy'n cael eu hatgyfeirio fwy nag unwaith y flwyddyn.**

## Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel

Mae'r datganiad yn cydnabod bod teimlo'n ddiogel yn ganlyniad llesiant pwysig. Nid oedd data ar gael ar gyfer yr adroddiad hwn ond mae data ar gyfer blynyddoedd blaenorol i'w gweld yn **adroddiad Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol 2021**. Gall adroddiadau yn y dyfodol gynnwys y data diweddaraf.

## Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar gofrestr amddiffyn plant awdurdod lleol

Mae'n bwysig ein bod yn amddiffyn plant sy'n parhau i wynebu risg. Er enghraifft, pan fydd plentyn yn wynebu risg o broblemau diogelu dro ar ôl tro. Roedd 7.4% o blant a gafodd eu rhoi ar gofrestrau amddiffyn plant awdurdodau lleol yn ystod 2020-21 wedi cael eu cofrestru o'r blaen yn ystod y 12 mis blaenorol.

Sylwer nad oes modd cymharu'r ffigurau hyn â'r rhai mewn Fframweithiau Canlyniadau Cenedlaethol blaenorol, a oedd yn seiliedig ar nifer y plant a ail-gofrestrwyd ar gofrestrau amddiffyn plant awdurdodau lleol o fewn 12 mis i'w cofrestriad diwethaf.

Ers hynny mae'r mesur hwn wedi'i ddisodli gan y metrigau Fframwaith Gwella Perfformiad newydd, a ddefnyddiwyd uchod – nifer y plant sy'n cael eu rhoi ar gofrestrau amddiffyn plant awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn a oedd wedi'u cofrestru o'r blaen yn y 12 mis blaenorol.

## Nifer y digwyddiadau o gam-drin domestig

Mae mynd i'r afael â phob math o gamdriniaeth yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn ategu hyn.

Yn 2020-21, roedd tua 83,300 o ddigwyddiadau a throseddau cam-drin domestig yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â thua 83,500 o ddigwyddiadau a throseddau cam-drin domestig yn 2019-20, ac 81,000 yn 2018-19.

Mae hyn yn dangos cynnydd o 3.2 pwynt canran mewn digwyddiadau cam-drin domestig rhwng 2019 a 2020 a gostyngiad o 1.5 pwynt canran rhwng 2020 a 2021.

Dylid darllen data Cam-drin domestig a Throseddau Rhywiol gyda chafeat – mae'n hysbys nad yw cyfran uchel o droseddau'n cael eu hadrodd i'r Heddlu, a bod newidiadau mewn ffigurau a gofnodwyd yn gallu adlewyrchu newidiadau mewn cyfraddau adrodd neu gofnodi yn hytrach na gwir nifer y digwyddiadau. Am y rhesymau hyn, mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli tueddiadau yn y troseddau hyn.

## Nifer y troseddau rhyw

Mae mynd i'r afael â phob math o drais rhywiol yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn ategu hyn. Yn 2021, cofnodwyd 7,419 o droseddau rhyw yng Nghymru. Fodd bynnag, bu cynnydd cyson yn

nifer y troseddau rhyw rhwng 2018 a 2020, o 8,559 yn 2018 i 8,730 yn 2019 gan gyrraedd uchafbwynt yn 2020 (9,080).

Noder, mae'r adroddiad Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol hwn yn darparu data troseddau rhyw mewn blynyddoedd calendr. Roedd adroddiadau blaenorol yn adrodd ar sail y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth.

## Canran yr oedolion sydd mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod sy'n cael eu hatgyfeirio fwy nag unwaith y flwyddyn

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cryfhau'r trefniadau diogelu presennol. Mae wedi cyflwyno dyletswydd i asiantaethau (e.e. GIG) roi gwybod am sefyllfaoedd lle mae oedolion mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Bydd rhai oedolion yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol fwy nag unwaith. Gall hyn fod ar gyfer yr un categorïau neu gategorïau gwahanol o gam-drin.

Yn 2020-21, roedd 15,301 o oedolion mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y flwyddyn; o'r rhain, cafodd dros draean (34.6%) eu hatgyfeirio fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn. Cafodd 14.8% eu hatgyfeirio fwy nag unwaith ar gyfer yr un categori o gamdriniaeth neu esgeulustod tra bod 19.8% wedi eu hatgyfeirio fwy nag unwaith ar gyfer categori gwahanol o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Mae hyn yn debyg i'r blynyddoedd cofnodi blaenorol. Yn 2018-19 roedd 14,938 o oedolion yn cael eu hamau o fod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y flwyddyn adrodd, ac fe gafodd 36.6% ohonynt eu hatgyfeirio fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn. Cafodd 14.9% eu hatgyfeirio fwy nag unwaith ar gyfer yr un categori o gamdriniaeth neu esgeulustod a 21.9% ar gyfer gwahanol gategorïau o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Nid oedd data ar gael ar gyfer 2019-20 oherwydd COVID-19.



# Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden

Mae dysgu a gwneud pethau sy'n bwysig i bobl yn ganlyniadau llesiant pwysig. Mae hyn yn wir i bobl sy'n cael gofal a chymorth ac i ofalwyr di-dâl sydd angen cymorth. Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod hyn. Mae plant angen meithrin sgiliau i'w helpu i gyflawni eu potensial addysgol. Gall hyn gynnwys mynd ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch. Fel oedolion, mae diffyg sgiliau addysgol sylfaenol yn gallu effeithio ar fywydau bob dydd pobl. Mae angen sgiliau fel darllen, ysgrifennu a rhifedd i ddeall ffurflenni a biliau.

Nid yw'r dysgu'n gyfyngedig i blant a'u haddysg. Mae dysgu a hyfforddiant i oedolion yn caniatáu i bobl ddatblygu eu gwybodaeth a sgiliau ymhellach. Gall hyn roi ymdeimlad o annibyniaeth i bobl a gwella hyder. Gall hefyd wella gallu person i gael a chadw swydd. Mae cael incwm rheolaidd a chadw allan o dlodi yn gallu cael effaith gadarnhaol ar lesiant.

## Dangosyddion Canlyniadau

26. **Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt.**
27. **Canlyniadau cyfnod allweddol 2 ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth.**
28. **Canlyniadau cyfnod allweddol 4 ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth.**
29. **Cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth.**
30. **Deilliannau dysgwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned.**
31. **Canran yr oedolion 16-64 oed sydd ag o leiaf un cymhwyster.**
32. **Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth sy'n cyflawni'r lefel ddysgu ddisgwyliedig, neu uwch, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.**
33. **Y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol ar gyfartaledd ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefydliad addysg a gynhelir gan awdurdod addysg lleol.**

## Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt

Rhaid i bobl allu cyflawni eu canlyniadau llesiant personol eu hunain. Rhaid iddynt hefyd barhau i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae hyn yn sicrhau annibyniaeth i bobl. Dylai gwasanaethau ystyried amgylchiadau unigol pobl. Pobl sy'n gwybod beth sydd orau iddynt. Dylai gwasanaethau ystyried eu barn, eu dymuniadau, a'u teimladau.

Nid oes data ar gael ar gyfer 2020-21; hwyrach y bydd diweddariadau ar gael yn adroddiadau'r dyfodol. Mae'r data ar gyfer blynyddoedd blaenorol i'w weld yn **adroddiad Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol 2021**.

## Canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth

Oherwydd COVID-19, ni chasglwyd data perfformiad ysgolion ac felly nid yw'n bosib rhoi diweddariad yn yr adroddiad hwn.

Ar ben hynny, cyflwynwyd Cwricwlwm newydd i Gymru ym mis Medi 2022, felly ni fydd cyfeiriadau at Gyfnodau Allweddol yn addas mwyach. Bydd y data a gesglir ar gyrhaeddiad addysgol yn newid o ganlyniad, a bydd adroddiadau'r dyfodol yn cael eu diweddaru yn unol â'r data sy'n cael ei gasglu ar gyfer y cwricwlwm newydd.

## Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth

Oherwydd COVID-19, ni chasglwyd data perfformiad ysgolion ac felly nid yw'n bosib rhoi diweddariad yn yr adroddiad hwn.

Ar ben hynny, cyflwynwyd Cwricwlwm newydd i Gymru ym mis Medi 2022, felly ni fydd cyfeiriadau at Gyfnodau Allweddol yn addas mwyach. Bydd y data a gesglir ar gyrhaeddiad addysgol yn newid o ganlyniad, a bydd adroddiadau'r dyfodol yn cael eu diweddaru yn unol â'r data sy'n cael ei gasglu ar gyfer y cwricwlwm newydd.

## Cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

Mae presenoldeb yn yr ysgol yn gallu cael effaith sylweddol ar gyrhaeddiad deilliannau addysgol ymysg plant. Roedd datganiadau blaenorol yn darparu cyfraddau presenoldeb ysgol i blant sy'n cael gofal a chymorth; erbyn hyn, dim ond ffigurau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a nodir.


Yn 2019, y gyfradd presenoldeb yn yr ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal oedd 89.5%. Roedd hyn yn is nag yn 2018 a 2017, lle'r oedd y gyfradd bresenoldeb yn 91.6% a 91.8% yn y drefn honno. Y gyfradd absenoldeb anawdurdodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn 2019 oedd 4.5%, sy'n uwch nag ydoedd yn 2018 (2.9%) a 2017 (2.8%).

## Deilliannau dysgwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned

Mae darparwyr dysgu ym mhob sector yn hollbwysig i wella safonau addysg. Mae'r dangosydd hwn yn edrych ar gyfran y dysgwyr sy'n cwblhau ac yn cyflawni cymwysterau. Mae'n cynnwys addysg gyffredinol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned a phrentisiaethau. Oherwydd COVID-19, defnyddiwyd methodoleg wahanol i greu ffigurau deilliannau dysgu, felly nid oes modd eu cymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ailgyfrifo'r ffigurau ar gyfer y blynyddoedd cyn y pandemig gan ddefnyddio'r fethodoleg newydd er mwyn gallu gweld tueddiadau.

Mae Ffigur 9 yn dangos cyfraddau cwblhau'r pedwar llwybr dysgu. Deilliannau addysg gyffredinol (A2) oedd â'r cyfraddau cwblhau uchaf o 2016-17 i 2020-21 (97% neu uwch); prentisiaethau oedd â'r isaf, yn enwedig yn 2019-20 (62% wedi cwblhau).


**Ffigur 3: Cyfraddau cwblhau ar gyfer deilliannau addysg gyffredinol, addysg alwedigaethol, prentisiaethau, a dysgu i oedolion**



Mae cyfraddau cyflawni deilliannau galwedigaethol, prentisiaethau a dysgu oedolion yn cael eu cyfrifo gan Lywodraeth Cymru. Mae nifer o ddeilliannau cyflawniad addysg gyffredinol; yn yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio canran y dysgwyr ar y pwynt 8 wythnos sy'n mynd ymlaen i gyflawni 3 neu fwy o gymwysterau Safon Uwch ar raddau A* i E, fel yr un mwyaf tebyg i gyfraddau cyflawni mewn llwybrau addysgol eraill.

Bu cynnydd yng nghyfraddau cyrhaeddiad addysg gyffredinol o 2016-17 i 2020-21 (o 81% i 90%). Ar y llaw arall bu gostyngiadau yng nghyfraddau cyflawni dysgu oedolion (o 89% yn 2016-17 i 80% yn 2020-21); dysgu galwedigaethol (o 81% yn 2016-17 i 77% yn 2020-21), ac ar gyfer prentisiaethau (o 71% yn 2016-17 i 63% yn 2020-21).

**Ffigur 4: Cyfraddau cyflawni ar gyfer deilliannau addysg gyffredinol, addysg alwedigaethol, prentisiaethau, a dysgu oedolion**



## Canran yr oedolion 16-64 oed sydd ag o leiaf un cymhwyster

Gall cymwysterau addysgol effeithio ar allu'r unigolyn i gael a chadw swydd. Mae swydd yn hybu llesiant gan ei fod yn gwella gallu'r unigolyn i dderbyn incwm rheolaidd.

Yn fwyaf diweddar, yn 2021, roedd gan 91.5% o bobl economaidd weithgar rhwng 16 a 64 oed o leiaf un cymhwyster ar lefel TGAU neu gyfwerth neu uwch. Yn yr un modd, roedd gan 91.8% o leiaf un cymhwyster yn NVQ Lefel 1 neu gymwysterau cyfwerth, neu uwch.

## Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth sy'n cyflawni'r lefel ddysgu ddisgwyliedig, neu uwch, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen

Oherwydd COVID-19, ni chasglwyd data perfformiad ysgolion ac felly nid yw'n bosibl rhoi diweddariad yn yr adroddiad hwn. Efallai y bydd data ar gael yn adroddiadau'r dyfodol.

## Y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol ar gyfartaledd ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefydliad addysg a gynhelir gan awdurdod addysg lleol

Oherwydd COVID-19, ni chasglwyd data perfformiad ysgolion ac felly nid yw'n bosibl rhoi diweddariad yn yr adroddiad hwn. Efallai y bydd data ar gael yn adroddiadau'r dyfodol.



# Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol

Mae rhwydweithiau cymdeithasol cryf, teulu a chyfeillgarwch yn gallu lleihau ynysigrwydd cymdeithasol. Mae hyn yn wir i bobl sy'n cael gofal a chymorth ac i ofalwyr di-dâl sydd angen cymorth. Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod hyn.

Mae ymdeimlad o berthyn i gymuned yn gallu gwella hyder a hunan-werth pobl. Gall hefyd leihau teimladau o ynysigrwydd drwy ganiatáu i bobl ymwneud â'i gilydd.



Yn 2020-21,

**34%** yn dweud eu bod yn teimlo'n unig. *(Dangosydd 34)*.



## Dangosyddion Canlyniadau

**34.** **Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig yn gyffredinol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol.**

**35.** **Canran y bobl sy'n meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd.**

**36.** **Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn perthyn i'w cynefin neu eu hardal leol.**

**37.** **Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda.**

## Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig yn gyffredinol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol

Gall unigrwydd emosiynol a chymdeithasol effeithio ar lesiant rhywun. Mae'n gallu effeithio ar iechyd, rhwydweithiau cymdeithasol a chyfeillgarwch. Gall gynyddu'r risg o farwolaeth a datblygu rhai clefydau penodol. Gall ddylanwadu ar adferiad hefyd os bydd rhywun yn mynd yn sâl.

Yn 2020-21, nododd y rhai sy'n cael gofal a chymorth y lefelau uchaf o unigrwydd emosiynol a chymdeithasol cyffredinol (34%) tra mai dim ond 16% o ofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth a ddywedodd eu bod yn teimlo'n unig. Roedd y rhai nad oeddent yn cael gofal a chymorth a'r rhai nad oeddent yn ofalwyr yn teimlo'n llai unig (12% a 13% yn y drefn honno).

Nid oedd arolwg 2018-19 yn gofyn cwestiynau am unigrwydd.

## Canran y bobl sy'n meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd

Mae teimlo'n ddiogel, cymryd rhan a chyfrannu at y gymuned leol yn helpu i sicrhau llesiant pobl. Mae pobl yn fwy tebygol o wneud hyn os ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu parchu gan deulu, ffrindiau a gwasanaethau.

Yn 2020-21, roedd y rhan fwyaf o bobl yn credu bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd. Pobl a oedd yn cael gofal a chymorth oedd lleiaf tebygol o feddwl felly (75%), tra bod 84% o'r rhai nad oeddent yn cael gofal a chymorth, gofalwyr a oedd yn cael cymorth a rhai nad ydynt yn ofalwyr i gyd yn cytuno bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd.

Yn 2018-19, roedd cyfran ychydig yn fwy o ofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth (75%) yn credu bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd na phobl a oedd yn cael gofal a chymorth (71%). Roedd yr un gyfran o bobl nad oeddent yn cael gofal a chymorth a gofalwyr a oedd yn cael cymorth yn credu bod pobl yn eu hardal yn parchu ei gilydd (76% yn achos y naill a'r llall).

## Canran y bobl sy'n teimlo eu bod nhw'n perthyn i'w hardal leol

Yn 2020-21, roedd pedwar o bob pump neu fwy o bobl ym mhob grŵp yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol. Roedd gofalwyr di-dâl yn cytuno â'r datganiad eu bod yn perthyn i'w ardal leol (88%), sy'n fwy nag unrhyw grŵp arall. Mae hyn yn cymharu â 83 o bobl nad oeddent yn ofalwyr, 80% o bobl a oedd yn cael gofal a chymorth, ac 83% o bobl nad oeddent yn cael gofal a chymorth.

Roedd ychydig dros dri chwarter y bobl nad oeddent yn cael gofal a chymorth yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol yn 2018-19, ychydig yn uwch na chyfran y gofalwyr (75%) ac unigolion a oedd yn cael gofal a chymorth (71%).

## Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda

Yn 2020-21, roedd dros dair rhan o bump o'r holl grwpiau yn credu bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda. Gofalwyr di-dâl oedd yn teimlo fwyaf cadarnhaol am hyn, gyda 71% yn cytuno. Roedd cyfran debyg (69%) o bobl nad oeddent yn ofalwyr yn cytuno hefyd. Pobl a oedd yn cael gofal a chymorth oedd leiaf cadarnhaol, gyda 63% yn cytuno bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda, o gymharu â 69% o'r bobl nad oeddent yn cael gofal a chymorth.

Yn 2018-19, roedd tua thri chwarter yr holl grwpiau yn credu bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda. (74% o'r unigolion nad oeddent yn cael gofal a chymorth neu gymorth fel gofalwyr; 76% o ofalwyr a oedd yn cael cymorth, 73% o bobl a oedd yn cael gofal a chymorth).



# Y cyfraniad a wneir at gymdeithas


Mae gallu ymgysylltu a gwneud cyfraniad i gymdeithas yn ganlyniadau llesiant allweddol. Mae'n bwysig bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu cymunedau ac yn y gymdeithas. Mae hyn yn wir am bobl sy'n cael gofal a chymorth ac i ofalwyr di-dâl sydd angen cymorth. Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod hyn.

Gall y canlyniadau hyn wneud i berson deimlo'n werth chweil. Gall hyn yn ei dro helpu pobl i gymryd gwell gofal o'u hiechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol. Mae ymdeimlad isel o werth yn gallu effeithio ar lesiant. Mae'n gallu effeithio ar iechyd meddwl a sut y mae pobl yn ymwneud â ffrindiau a theulu.

## Dangosyddion Canlyniadau

38. **Canran y bobl sy'n dweud bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil.**
39. **Canran y bobl sy'n gwirfoddoli.**
40. **Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau cymunedol neu ieuenctid.**
41. **Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig cymorth i bobl anabl.**

**Ffigur 5: Cyfran y bobl sy'n dweud bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil yn 2020-21, yn ôl categori gofal a/neu gymorth gwasanaethau cymdeithasol**



## Canran y bobl sy'n dweud bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil

Mae ymdeimlad o fod yn werth chweil a chael eich gwerthfawrogi gan eraill yn gallu hybu llesiant. Gall ymdeimlad o fod yn werth chweil helpu pobl i ofalu am eu hiechyd yn well. Gall hefyd helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant.

Roedd ychydig o dan ddwy ran o dair (64%) y bobl a oedd yn cael gofal a chymorth yn 2020-21 yn credu bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil, gryn dipyn yn is na phobl nad oeddent yn cael gofal a chymorth (84%), gofalwyr di-dâl a oedd yn cael cymorth (83%), a'r rhai nad oeddent yn ofalwyr (83%).

Yn 2018-19, roedd 66% o'r bobl a oedd yn cael gofal a chymorth o'r farn bod y pethau roeddent yn eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil. Roedd hyn yn sylweddol is na'r rhai nad oeddent yn cael gofal a chymorth, sef 86%.

Dywedodd 84% o'r gofalwyr di-dâl a gafodd gymorth bod yr hyn roeddent yn ei wneud mewn bywyd yn werth chweil yn 2018-19, o gymharu ag 85% o bobl nad oeddent yn cael cymorth fel gofalwyr.

## Canran y bobl sy'n gwirfoddoli

Mae gwirfoddoli yn ffordd i bobl allu cymryd rhan yn eu cymuned leol a chyfrannu ati. Mae gwirfoddoli'n gallu cynnig llawer o fanteision i bobl, yn cynnwys datblygu sgiliau newydd, rhyngweithio cymdeithasol ac ymdeimlad o gael eu gwerthfawrogi.

Nid oedd data ar gael, efallai y bydd diweddariadau ar gael yn adroddiadau'r dyfodol.

## Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau cymunedol neu ieuenctid

Nod sefydliadau gwirfoddol yw cefnogi unigolion. Gallant gynnwys elusennau cofrestredig, cymdeithasau tai, undebau credyd, cwmnïau budd cymunedol, ymddiriedolaethau a grwpiau cymunedol lleol.

Mae gweithgareddau cymunedol yn gallu cynnwys grwpiau sy'n gweithio i adfywio cymunedau, neu wella mynediad at wasanaethau. Gallant hefyd gynnwys cylchlythyrau cymunedol a rhaglenni datblygu. Mae gweithgareddau ieuenctid yn grwpiau sy'n cynnwys pobl ifanc. Gallant gynnwys canolfannau ieuenctid, clybiau, sefydliadau mewn lifrai, chwaraeon a grwpiau diwylliannol.

Ym mis Gorffennaf 2022, roedd 22.4% o sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru yn cynnig gweithgareddau cymunedol a 4.53% yn cynnig gweithgareddau ieuenctid. Daw'r data hwn o giplun mis Gorffennaf 2022, ac efallai nad yw'n adlewyrchu'r data sydd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar adegau eraill.

## Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i bobl anabl

Ym mis Gorffennaf 2022, roedd 3.04% o sefydliadau gwirfoddol yn cynnig gweithgareddau i bobl anabl. Ciplun o ddata mis Gorffennaf 2022 yw hwn, felly efallai nad yw'n adlewyrchu'r data sydd gan Gyngor Gwirfoddol Cymru ar adegau eraill.

# Llesiant cymdeithasol ac economaidd

Mae statws cymdeithasol ac economaidd pobl yn gallu effeithio ar eu llesiant. Mae hyn yn wir am bobl sy'n cael gofal a chymorth ac i ofalwyr di-dâl sydd angen cymorth. Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod hyn.

Mae sicrwydd swyddi o safon yn hollbwysig i lesiant economaidd, corfforol, a meddyliol pobl.

Mae cyfraddau cyflogaeth uchel yn hanfodol i godi safonau byw. Maent hefyd yn helpu i leihau anghydraddoldeb a thlodi. Gall rhai pobl wynebu rhwystrau i gyflogaeth. Gall rhwystrau gynnwys problemau iechyd neu ddiffyg sgiliau. Bydd cael gwared ar rwystrau a helpu pobl i aros mewn gwaith o fudd i lesiant pobl. Byddant yn cael yr un mynediad at wasanaethau a chyfleoedd ag eraill. Bydd pobl yn gallu cyfrannu'n llawn at gymdeithas. Bydd hyn yn eu helpu i fyw bywydau mor iach, annibynnol, a boddhaus â phosibl.

Gall amodau cymdeithasol ac economaidd ardal effeithio ar lesiant hefyd. Er enghraifft, mae plant sydd angen gofal a/neu gymorth yn fwy tebygol o fyw yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru.

## Dangosyddion Canlyniadau

**42. Cyfradd cyflogaeth oedolion 50 oed a hŷn.**

**43. Cyfradd cyflogaeth oedolion sydd rhwng 16 a 64 oed ac sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio dan y Ddeddf Cydraddoldeb.**


**44. Bwlch o ran disgwyliad oes rhwng y rhai lleiaf difreintiedig a'r mwyaf difreintiedig.**

**45. Pobl ifanc 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).**

**46. Canran yr aelwydydd sy'n ddifreintiedig yn faterol.**

## Cyfradd cyflogaeth oedolion 50 oed a hŷn

**Ffigur 6: Cyfran yr oedolion 50 oed a hŷn mewn cyflogaeth fesul blwyddyn, o 2019 i 2021**




Gall pobl hŷn wynebu rhwystrau i gyflogaeth. Er enghraifft, problemau iechyd neu ddiffyg sgiliau perthnasol. Mae helpu pobl hŷn i aros mewn gwaith yn sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu'n llawn at gymdeithas. Gall aros mewn gwaith helpu pobl i fyw bywydau iach, annibynnol, a boddhaus.

Yn 2021, roedd 38.5% o oedolion 50 oed a hŷn mewn gwaith. Mae hyn wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf, o 39.4% yn 2019 a 39.0% yn 2020.


Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r cyfraddau cyflogaeth yn ôl blwyddyn galendr ac, o'r herwydd, nid oes modd cymharu ffigurau â'r rhai mewn adroddiadau blaenorol a gofnodwyd fesul blwyddyn ariannol (Ebrill-Mawrth).

## Cyfradd cyflogaeth oedolion 16-64 oed ac sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio dan y Ddeddf Cydraddoldeb

Mae pobl ag anabledd craidd dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn cael eu diffinio fel pobl ag anableddau sy'n bodloni'r diffiniad o 'anabl' yn **Neddf Cydraddoldeb 2010**.

Caiff ymatebwyr i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r **Arolwg o'r Llafurlu** eu diffinio fel rhai ag 'anabledd sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio' os ydynt yn ateb bod ganddynt gyflwr iechyd corfforol neu salwch sy'n para, neu y disgwylir iddo bara, am 12 mis neu fwy, a bod y cyflwr neu'r salwch hwn yn lleihau eu gallu i wneud gweithgareddau bob dydd.

**Ffigur 7: Cyfran yr oedolion 16-64 oed sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio dan y Ddeddf Cydraddoldeb, rhwng 2019 a 2021**




Graff sy'n dangos cyfradd cyflogaeth oedolion 16-64 oed sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio dan y Ddeddf Cydraddoldeb rhwng 2019 a 2021, gan gynnwys lleihad dros amser.

Mae swydd sicr o safon yn hollbwysig i lesiant economaidd, corfforol, a meddyliol pobl. Bydd cael gwared ar rwystrau gwaith i bobl anabl yn helpu i leihau anghydraddoldebau.

Yn 2021 roedd ychydig llai na hanner (48.9%) y bobl rhwng 16 a 64 oed ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio dan y Ddeddf Cydraddoldeb mewn gwaith. Mae hyn wedi gostwng yn y ddwy flynedd ddiwethaf: roedd canran y bobl rhwng 16 a 64 oed ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio dan y Ddeddf Cydraddoldeb mewn gwaith yn 49.3% yn 2020, a 50.5% yn 2019.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r cyfraddau cyflogaeth yn ôl blwyddyn galendr ac, o'r herwydd, nid oes modd cymharu ffigurau â'r rhai mewn adroddiadau blaenorol a gofnodwyd fesul blwyddyn ariannol (Ebrill-Mawrth).

## Bwlch o ran disgwyliad oes rhwng y rhai lleiaf difreintiedig a'r mwyaf difreintiedig


Mae'r cyfrifoldeb am yr eitem ddata hon yn cael ei rannu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Gweler y Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y manylion diweddaraf.

## Canran y bobl ifanc 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

Mae hyfforddiant, addysg, neu gyflogaeth yn bwysig i oedolion ifanc (19-24 oed). Os nad yw oedolyn ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, gall hyn effeithio ar ei lesiant a'r gymdeithas yn ehangach. Gall arwain at gynnydd mewn problemau iechyd cyffredinol neu gyfraddau troseddu.

Mae Ffigur 14 yn dangos bod 15.2% o bobl ifanc 19-24 oed yng Nghymru ddim mewn addysg, cyflogaeth, na hyfforddiant (NEET) ddiwedd 2020, o gymharu ag 16.1% yn 2019 ac 16% yn 2018. Mae hyn yn parhau â'r gwelliant graddol yng nghyfraddau NEET ers 2012.

**Ffigur 8: Canran y bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth, neu hyfforddiant (NEET) rhwng 2010 a 2020**




Ffynhonnell: Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru

## Canran yr aelwydydd sy'n wynebu amddifadedd materol

Diffinnir aelwyd sy'n wynebu amddifadedd materol fel un sy'n methu fforddio rhai pethau. Er enghraifft, cadw'r tŷ yn ddigon cynnes, cynilo'n rheolaidd, cael gwyliau unwaith y flwyddyn, a chysylltiad â'r rhyngrwyd.

Nid oedd data ar gyfer 2020-21 ar gael, efallai y bydd diweddariadau ar gael mewn datganiadau yn y dyfodol. Mae'r data ar gyfer blynyddoedd blaenorol i'w gweld yn **adroddiad Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol 2021**.

# Addasrwydd llety preswyl

Mae byw mewn llety diogel, boddhaol, a phriodol yn gallu effeithio ar lesiant. Mae hyn yn wir am bobl sy'n cael gofal a chymorth ac i ofalwyr di-dâl sydd angen cymorth. Mae'r datganiad llesiant yn adlewyrchu hyn.

Mae amodau byw gwael a gorboblogi yn gallu cael effaith negyddol ar lesiant. Gall arwain at lesiant corfforol a meddyliol gwael. Gall hefyd effeithio ar ddysgu a datblygiad plant.

Mae angen i wasanaethau gydweithio er mwyn sicrhau bod llety preswyl yn addas. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau gofal a chymorth, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.



**98.8%**

o'r holl stoc tai cymdeithasol yng Nghymru yn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (gan gynnwys methiannau derbyniol) yn 2019-20. *(Dangosydd 50)*.

## Dangosyddion Canlyniadau

**47.** **Canran y bobl sy'n dweud bod eu llety yn addas i'w hanghenion.**

**48.** **Canran yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol.**

**49.** **Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau tai.**

**50.** **Canran y tai cymdeithasol sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru.**

## Canran y bobl sy'n dweud bod eu llety yn addas i'w hanghenion

Ni allwn gymharu 2020-21 â'r blynyddoedd blaenorol oherwydd newid yn y dulliau arolygu a ddefnyddiwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru. Nid oedd data ar gael ar gyfer 2020-21, efallai y bydd diweddariadau ar gael yn y dyfodol. Mae'r data ar gyfer blynyddoedd blaenorol i'w gweld yn **adroddiad Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol 2021**.

## Canran yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol

Mae llawer o ffactorau personol a chymdeithasol gwahanol yn gallu cyfrannu at sefyllfa lle mae pobl yn dod yn ddigartref. Gall achosi aflonyddwch a thrawma aruthrol i unrhyw un sy'n profi hyn. Mae plant yn arbennig o agored i niwed, gan golli'r ysgol yn aml.

Nid yw'r ffigur yma wedi'i ddiweddaru gan na chasglwyd data oherwydd Covid. Mae'r data ar gyfer blynyddoedd blaenorol i'w gweld yn **adroddiad Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol 2021**.

## Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig cymorth tai

Mae'r trydydd sector yn ategu gwasanaethau statudol. Maent yn darparu gwasanaethau er budd pobl a chymunedau yng Nghymru. Maent yn rhoi cymorth, gan alluogi pobl i gynorthwyo eu hunain, lle bo hynny'n briodol.

Ym mis Gorffennaf 2022, roedd 1.36% o sefydliadau gwirfoddol yn cynnig cymorth tai, fel prosiectau digartrefedd, cynlluniau gofal a thrwsio, gwasanaethau cyngor ar dai a chymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr. Ciplun o ddata mis Gorffennaf 2022 yw hwn, felly efallai nad yw'n adlewyrchu'r data sydd gan Gyngor Gwirfoddol Cymru ar adegau eraill.

## Canran y tai cymdeithasol yn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)

Mae landlordiaid cymdeithasol yn darparu tai cymdeithasol. Maent yn cynnwys cynghorau lleol a chymdeithasau tai. Sefydliadau dielw sy'n berchen ar dai rhent, yn eu gosod a'u rheoli yw cymdeithasau tai.

Mae ansawdd y tai cymdeithasol yng Nghymru yn gallu effeithio ar lesiant. Cyhoeddwyd Safon Ansawdd Tai Cymru am y tro cyntaf yn 2002 ac fe'i diweddarwyd yn 2008. Ei nod yw helpu i sicrhau bod yr holl anheddau o ansawdd da a'u bod yn addas ar gyfer anghenion pob preswylydd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob landlord cymdeithasol yng Nghymru sicrhau bod eu cartrefi yn bodloni gofynion y Safon Ansawdd Tai.

Yn 2019-20, roedd 98.8% o'r holl stoc tai cymdeithasol yng Nghymru yn cydymffurfio â'r Safon Ansawdd Tai (gan gynnwys methiannau derbyniol). Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu ers 2018-19 pan oedd 93.1% yn cydymffurfio. Mae cydymffurfiaeth wedi parhau i gynyddu ers i'r broses o gasglu data canolog ddechrau yn 2011-12, pan oedd 41.5% o'r holl stoc tai cymdeithasol yng Nghymru yn cydymffurfio â'r Safon Ansawdd Tai (gan gynnwys methiannau derbyniol).

# Y camau nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu a diweddaru'r dangosyddion. Er enghraifft, lle nad yw data ar gael, lle mae wedi'i ddiwygio neu lle mae wedi gorffen. Byddwn ni hefyd yn parhau i fonitro data a pholisïau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Bydd hyn o gymorth i wella polisi yn y dyfodol.

Mae Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn cynnig data ychwanegol. Gallwn ddefnyddio'r data hwn fel dangosyddion yn y dyfodol. Byddwn yn adolygu hyn cyn y cyhoeddiad blynyddol nesaf. Gall hyn arwain at newidiadau i'r dangosyddion presennol a/neu gynnwys dangosyddion newydd.



# Atodiad Ansawdd Data

## Manwl gywirdeb

Yn yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data, pob un â lefelau gwahanol o fanwl gywirdeb (fel y rhif cyfan agosaf, un lle degol, mil agosaf). Yn y rhan fwyaf o achosion rydym wedi cyfateb manylder pob eitem o ddata â'i ffynhonnell neu ffynonellau data gwreiddiol, i sicrhau cywirdeb. Lle nad yw hyn yn ymarferol, rydym wedi nodi lefel y talgrynnu a ddefnyddiwyd.

## Parhad a chymharedd

Mae rhai o'r mesurau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ffynonellau data gwahanol i'r rhai mewn Fframweithiau Canlyniadau Cenedlaethol blaenorol. Yn benodol, mae sawl mesur a oedd yn seiliedig ar fesurau perfformiad blaenorol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol wedi'u diweddaru i ddefnyddio'r metrigau Fframwaith Gwella Perfformiad newydd sy'n disodli mesurau perfformiad. Rydym wedi nodi'n glir lle mae hyn wedi achosi diffyg parhad rhwng ffigurau yn Fframweithiau Canlyniadau Cenedlaethol 2022 a chyhoeddiadau blaenorol. Pan fydd hyn yn digwydd, nid yw'n briodol cymharu mesurau Fframwaith 2022 ag adroddiadau blaenorol.

Ar ben hynny, nid oes modd cymharu ymatebion Arolwg Cenedlaethol Cymru 2020-21 â'r blynyddoedd blaenorol oherwydd newid yn y dull arolygu. Fel arfer, mae'r arolwg yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb, ond oherwydd COVID-19, cafodd ei gwblhau dros y ffôn yn 2020-21. O ganlyniad, nid oes modd cymharu canlyniadau 2020-21 â'r blynyddoedd blaenorol.

## Grwpiau poblogaeth

Yn 2020-21, 2018-19 ac yn 2016-17 gall y grŵp "gofalwyr di-dâl sy'n cael cymorth" gynnwys unigolion sy'n cael gofal a chymorth, cyn belled â'u bod hefyd yn cael cymorth fel gofalwyr di-dâl. Yn yr un modd, gall y grŵp "pobl sy'n cael gofal a chymorth" gynnwys unigolion sy'n cael cymorth fel gofalwyr di-dâl, ar yr amod eu bod hefyd yn cael gofal a chymorth eu hunain.

Yn 2016-17, nid oedd ffigurau ar wahân ar gyfer a) pobl nad oeddent yn cael cymorth fel gofalwyr, a b) pobl nad oeddent yn cael gofal a chymorth, ar gael o adroddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru. Dim ond gwybodaeth gyfunol am unigolion nad oeddent yn cael gofal a chymorth na chymorth fel gofalwyr a gawsom. Cadwch hyn mewn cof wrth ddehongli'r canlyniadau.

Roedd ffigurau ar wahân ar gael yn 2020-21 a 2018-19.

## Ailgategoreiddio camdriniaeth

Yn "Canran yr oedolion sy'n wynebu risg o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod sy'n cael eu hatgyfeirio fwy nag unwaith y flwyddyn" efallai fod rhai oedolion wedi cael eu hatgyfeirio fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn ar ôl ailgategoreiddio eu camdriniaeth.

# Atodiad Ffynonellau Data

1. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
2. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
3. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
4. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
5. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
6. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
7. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
8. **Y sector gwirfoddol yng Nghymru – CGGC**.
9. StatsCymru – Metrigau AD/013 ac AD/012 Fframwaith Gwella Perfformiad.
10. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
11. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
12. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
13. Amherthnasol – Gweler y Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol am yr wybodaeth ddiweddaraf.
14. Amherthnasol – Gweler y Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol am yr wybodaeth ddiweddaraf.
15. StatsCymru – Gwasanaethau Plant – **statws iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal a chymorth**.
16. StatsCymru – Gwasanaethau Plant – **statws iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal a chymorth**.
17. StatsCymru – Gwasanaethau Plant – **statws iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal a chymorth**.
18. Amherthnasol – Gweler y Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol am yr wybodaeth ddiweddaraf.
19. Amherthnasol – Gweler y Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol am yr wybodaeth ddiweddaraf.
20. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
21. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
22. StatsCymru – Metrig CH/024 y Fframwaith Gwella Perfformiad.

23. Swyddfa Ystadegau Gwladol – **digwyddiadau cam-drin domestig**.
24. Swyddfa Ystadegau Gwladol – **nifer yr ymosodiadau rhyw**.
25. StatsCymru – Metrigau AS/002 ac AS/003 y Fframwaith Gwella Perfformiad.
26. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
27. Amherthnasol – heb ei ddiweddaru yn 2022.
28. Amherthnasol – heb ei ddiweddaru yn 2022.
29. Amherthnasol – heb ei ddiweddaru yn 2022.
30. Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru – **Mesurau canlyniadau dysgwyr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion**.
31. Swyddfa Ystadegau Gwladol – Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth – ar gael trwy **wasanaeth NOMIS**.
32. Amherthnasol – heb ei ddiweddaru yn 2022.
33. Amherthnasol – heb ei ddiweddaru yn 2022.
34. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
35. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
36. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
37. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
38. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
39. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
40. **Y sector gwirfoddol yng Nghymru – CGGC**.
41. **Y sector gwirfoddol yng Nghymru – CGGC**.
42. Swyddfa Ystadegau Gwladol – Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth – ar gael trwy **wasanaeth NOMIS**.
43. Swyddfa Ystadegau Gwladol – Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth – ar gael trwy **wasanaeth NOMIS**.
44. Amherthnasol – Gweler y Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol am yr wybodaeth ddiweddaraf.
45. Stats Cymru – **Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran**.
46. Amherthnasol – heb ei ddiweddaru yn 2022.
47. **Arolwg Cenedlaethol Cymru** – DS: dim ond ystadegau lefel uchel sy'n cael eu cyhoeddi.
48. Amherthnasol – heb ei ddiweddaru yn 2022.
49. **Y sector gwirfoddol yng Nghymru – CGGC**.
50. Stats Cymru – **cydymffurfiaeth gyffredinol â safon ansawdd tai Cymru yn ôl darparwr**.